


Adroddiadau Swyddogion



Blaenoriaethau

- ✓ Caiff profiad o'r Brifysgol effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl myfyrwyr a chaiff iechyd meddwl ei ystyried wrth gyflwyno newidiadau i'r Undeb a'r Brifysgol.

Polisi

- ✓ Rydym wedi arddel safiad o ddim goddefgarwch tuag at wahaniaethu, aflonyddu rhywiol ac ymosodiadau rhywiol.*
- ✓ Rydym wedi penderfynu i wrthsefyll penderfyniad Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig ar rywedd ac i ymgyrchu yn ei erbyn.*
- ✓ Rydym wedi ystyried ffyrdd o helpu myfyrwyr i fforddio golchi dillad.*
- ✓ Rydym am roi'r gorau i'r term DALIE (Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig) a chyflwyno MEBE (Mwyafrif Ethnig Byd-Eang).*
- ✓ Blaenoriaeth gan yr Undeb - Costau Byw

Llywydd Lles
a Rhyddid



Beth sydd wedi cael ei wneud?



Llywydd Lles
a Rhyddid

✓ Ymddiriedolaeth: mynychu panel cyfweiliadau i benodi ymddiriedolwr Undeb allanol, mynychais hyfforddiant ymddiriedolwyr + mynychu fy nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr cyntaf a mynychu cyflwyniad y Brifysgol i ymddiriedolwyr a des i yn ymddiriedolwr y Brifysgol

✓ Ymladd â champau trawsffobig: yn sgil yr oedi ar lawdriniaethau cadarnhau rhywedd yng Nghymru, cysylltais ag undebau myfyrwyr eraill i'w hannog i lobio eu haelodau seneddol i drafod penderfyniad y bwrdd yn y Senedd + bûm mewn cysylltiad ag ASau a'r Gweinidog dros lechyd a Gofal + gweithiais ar gyfathrebiadau i gadarnhau cefnogaeth i'n cymuned draws

✓ Yr Wythnos Groeso: treuliais amser wrth y stondin llesiant i godi ymwybyddiaeth o nwyddau llesiant am ddim yn yr Undeb + cynhaliais ddigwyddiadau gyda'r nos ar y cyd + cyflwynais drafodaethau a thrafodaethau Seremoni Groesawu ynghylch fy nhaith fyfyrwr

✓ Cymerais ran mewn amryw o hyfforddiant dros yr haf ar sut i gynnal ymgyrchoedd, cyfathrebu â'r Brifysgol, Cysylltiadau Cyhoeddus,



Atebolrwydd

Rhestr Gyfarfod:


- Cyngor y Brifysgol - 2
- Diwrnodau Strategaeth y Brifysgol - 3
- Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb
- Archwilio a Sicrwydd Risg (Cyngor y Brifysgol)
- Enwebiadau (Cyngor y Brifysgol)
- Adnoddau a Pherfformiadau (Cyngor y Brifysgol)
- Buddsoddiadau (Cyngor y Brifysgol)
- Gweithdy Senedd
- Addysg a'r Profiad Myfyriwr
- Arwyr Cydraddoldeb - cyfranogiad
Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant
- Cwrdd â gwahanol Weithredwyr y Brifysgol
- Cyfarfod Pecyn Camfanteisio ar Oedolion

✓ Gwaith ynghylch defnydd a chyfarwyddyd i fyfyrwyr a staff
ynglŷn â Deallusrwydd Artiffisial

✓ Gweithio ar sut i ddilyn canllaw y Comisiwn Cydraddoldeb
a Hawliau Dynol tra'n gwarchod ein cymuned draws

✓ Creu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ynghylch
camfanteisio'n rhywiol ar oedolion

Sgyrsiau Myfyrwyr



Themâu

- Ymatebion ar ddigwyddiadau'r wythnos groeso
- Ymatebion ar drafodaethau croesawu, yr gawsant yn fuddiol
- Grŵp Ffocws Llesiant: barn y myfyrwyr ynglŷn â'r hyn sy'n cael effaith ar eu lles fwyaf a sut gall yr Undeb ei leihau gymaint â phosibl
- Siaradais â myfyrwyr di-rif yn y sgyrsiau croesawu ynghylch swyddogaeth yr Undeb wrth gynrychioli eu llais

Camau Nesaf

I Ddod

- Parhau i gyflawni gwaith ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar oedolion, paratoi at gadeirio panel yn ei gylch â chymysgedd o fyfyrwyr a'r Brifysgol
- Parhau i weithio ar fy ymgyrch, cwrdd â rhanddeiliaid allweddol (y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn y Brifysgol, cyfeillion, pobl allweddol a fydd yn helpu llunio'r ddogfen derfynol)
- Y nod yw paratoi drafft cyntaf yr asesiad o'r effaith ar iechyd meddwl erbyn Ionawr a'u profi ar gyfer tymor 2 y Senedd a'r Cyf Cyff
- Tymor newydd o gyfarfodydd a chyfarfodydd pwyllgor
- Rhoi help llaw yn yr Wythnos SHAG

Blaenoriaethau

- ✓ Sicrhau na chynhelir yr un labordy, ymarfer a/neu asesiad ar fore Mercher fel na fydd rhwystrau i athletwyr o'r myfyrwyr sy'n teithio ar gyfer gemau oddi cartref.

Polisi

- ✓ Rydym yn gweithio ar ailwampio'r cyfleusterau chwaraeon.
- ✓ Dylai Undeb y Myfyrwyr barhau i gynnal y Bwrdd Cynghori Myfyrwyr Rhyngwladol
- ✓ Rydym yn cefnogi y gwaith i drawsnewid y Gerddi Botaneg yn 'Gerddi Botaneg Penglais'.
- ✓ Blaenoriaeth gan yr Undeb
- ✓ Dod ag Elusen/au RAG yn ôl

Llywydd Cyfleoedd



Beth sydd wedi cael ei wneud?

Llywydd Cyfleoedd

- ✓ Yr Wythnos Groeso, cynllunio superteams, y tîm nos, paratoi ar gyfer y flwyddyn i ddod
- ✓ Gwaith cyffredinol ar fy ymgyrch, hel adborth ynghylch gwahanol bethau oddi wrth fyfyrwyr, ychydig o weinyddu a chodi gwaith yr adran gyfleoedd
- ✓ Llawer o gyfryngau cymdeithasol a pethau BUCS
- ✓ Llawer o hyfforddiant yn ystod yr haf a llawer o deithio yn ddiweddar ar gyfer y gwaith



Atebolrwydd

Rhestr Gyfarfod | Meeting List:

- Chwaraeon Myfyrwyr Cymru
- Grŵp Rheoli Ystadau
- Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
- Gweithgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd
- Bwrdd Cyngori Canolfan y Celfyddydau
- Addasrwydd I Ymarfer a Disgyblaethu
- Rhwydwaith Swyddogion o Fyfyrwyr
- Cwrdd ynghylch Amserlennu
- Cyfarfodydd Datblygu
- Cyfarfodydd Adolygiadau Risg Clybiau
- Cyfweiliadau
- Cyfarfodydd â'r Is-Ganghellor

✓ rydyn ni wedi penodi aelod newydd i'n bwrdd ymddiriedolwyr ac aelod arall i'r adran gyfleoedd

✓ cefais fy ethol yn gadeirydd ar Chwaraeon Myfyrwyr Cymru

✓ prawf posibl o newid amserlenni yn yr ail dymor

Sgyrsiau Myfyrwyr



Themâu

Y cyfryngau cymdeithasol
BUCS
Cyfleusterau chwaraeon
Superteams

Camau Nesaf

I Ddod

- Mwy o gyfarfodydd datblygu ac adolygiadau risg
- Cwrdd ag UCM ynghylch myfyrwyr rhyngwladol
- MWY o BUCS
- Dechrau byrddau cynghori
- Cyfarfod varsity cyntaf
- mwy o waith ymgyrchu a dadansoddi

Blaenoriaethau

Llywydd
Academaidd

- ✓ Ni ddylai un myfyriwr fyw mewn llety llawn llwydni

Polisi

- ✓ Rydym yn mabwysiadu siarter 'Amddiffyn Anghytuno' Amnesty y DU i'n polisi.*
- ✓ Rydym wedi cytuno ar ystyried opsiynau mwy cynaliadwy yn lle Starbucks.*
- ✓ Wrthi'n ymchwilio i ymgyrch Deallusrwydd Artiffisial



Beth sydd wedi cael ei wneud?

Llywydd
Academic

- ✓ 11 sgwrs ymgartrefu, 2 ddigwyddiad cwrdd a chyfarch, erthyglau yr Wythnos Groeso, y Cwis Mawr, cefnogi y Penwythnos Croeso, hyfforddi cynrychiolwyr academiaidd
- ✓ Wedi hybu eglurder ynghylch deallusrwydd artiffisial a Chytundeb Trwydded Ddefnyddiwr Turnitin, a'r diffyg sicrwydd gwaith ymysg myfyrwyr nyrsio graddedig, trwy fideos, deisebau, e-byst, erthyglau a chyfathrebu ag Undeb Myfyrwyr eraill
- ✓ Llauer o hyfforddiant ee Trefnu Cymunedol, Ymgyrchoedd, y Deddf Hawliau Rhentwyr, Cymorth Cyntaf
- ✓ Llauer o ymchwil, cyfarfodydd, siarad â myfyrwyr am ymgyrchoedd a digwyddiadau yn y dyfodol ee ynghylch profiadau myfyrwyr o dai, darllen deddfwriaeth am hawliau tai, cynllunio'r Wythnos SHAG a Digwyddiad y Clefyd Siwgr



Atebolrwydd

Rhestr Gyfarfod | Meeting List:

- Paneli Ffitrwydd i Ymarfer a disgyblu
- Staff y Brifysgol, ee Addysg Ddigidol, Llety, Dirprwy Is-Ganghellorau
- Undeb Tenantiaid Lleol, SOS Housing UK
- Panel Gwobrau Addysg a'r Profiad Myfyriwr
- Pwyllgor Addysg a'r Profiad Myfyriwr, QS
- Cymunedau Academaidd (Unitu)
- Amddiffyn Anghytuno â Chymdeithas Amnesty
- Gweithdy'r Senedd ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol
- Cyfarfod Gweithredol Misol am Gynaliadwyedd
- Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr cyntaf
- Swyddogion Cyfadrannau a Phenaethiaid Cyfadrannau
- heb allu mynychu Grŵp Sgiliau Aber, Pwyllgor Comisiynau Cydweithredol, Grŵp Datblygu Portffolio Strategol

✓ Parhau i weithio ar lwydni a lleithder yng nghartrefi myfyrwyr a'r nod o ddysgu myfyrwyr am eu hawliau fel rhentwyr

✓ Sicrhau y caiff pryderon myfyrwyr ynghylch defnydd ar ddeallusrwydd artiffisial yn eu haddysg yn cael eu trin a'u cyflwyno i'r Brifysgol

Sgyrsiau Myfyrwyr



Themâu

- Tai myfyrwyr
- Deallusrwydd Artiffisial
- Hygyrchedd
- Amgylchiadau arbennig
- Gwarchod a hyrwyddo hawliau myfyrwyr

Camau Nesaf

I Ddod

- Yr wythnos SHAG
- Digwyddiad y Clefyd Siwgr
- Cyfarfod ag aelodau'r Senedd ynglŷn â thai myfyrwyr ac eglurder ar gyfer myfyrwyr nyrsio ôl-radd
- Mwy o hyfforddiant cynrychiolwyr academiaidd
- Sgyrsiau â'r brifysgol ynghylch defnydd teg ar ddeallusrwydd artiffisial a pha un ai i barhau â'n trwydded Turnitin
- Parhau â chyfathrebu â myfyrwyr a'u hymatebion a'u pryderon
- Parhau i ymchwilio i dai ac i ddeallusrwydd artiffisial!

Blaenoriaethau

- ✓ Caiff modiwlau cyfrwng Cymraeg eu hysbysebu yn iawn, gan nodi'n glir holl elfennau'r modiwl a fydd yn Gymraeg.

- ✓ Pantycelyn - Mae gan fyfyrwyr Cymraeg le diogel i siarad Cymraeg yn eu cartref.

Polisi

- ✓ Rydym wrthi'n gweithio ar gael gwared ar gerflun Edward VIII.

- ✓ Blaenoriaeth gan yr Undeb

Llywydd UMCA



Beth sydd wedi cael ei wneud?

Llywydd UMCA



Wedi derbyn sawl hyfforddiant



Trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau UMCA er mwyn croesawu myfyrwyr Cymraeg i Aberystwyth. Cynhaliwyd Paned a Sgwrs cyntaf y flwyddyn sy'n cefnogi myfyrwyr ar eu taith dysgu Cymraeg.



Cynllunio a chyfarfodydd ymgyrch: ymgynghoriad myfyrwyr wedi'i drefnu ar gyfer Tachwedd 11 am y wybodaeth sydd ar gael ynghylch modiwlau cyfrwng Cymraeg.



Rhan o banel yn recriwtio staff newydd i'r Undeb, a hefyd yn rhan o banel beirniadu'r gwobrau Addysg a Phrofiad Myfyrwyr eleni.



Atebolrwydd

Rhestr Gyfarfod

- Cyngor y Brifysgol | University Council
- Diwrnodau Strategaeth y Brifysgol | University Strategy Days
- Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb | Undeb Trustee Board
- Grŵp Trawsbleidiol dros y Gymraeg yn y Senedd | Cross-party group for Welsh language in the Senedd
- Grŵp Gweithredol y Gymraeg | Welsh Language Operational Group
- Pwyllgor y Gangen Coleg Cymraeg | Coleg Cymraeg Branch Committee
- Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg | Coleg Cymraeg Academic Board
- Pwyllgor UMCA | UMCA Committee
- Grŵp Ymgynghorol Canolfan y Celfyddydau | Arts Centre Advisory Board
- Disciplinary
- Gweithdy Senedd | Senate Workshop
- Panel gwobrau APM | ESE Awards Panel
- *Methu mynychu: Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg | Unable to attend: Welsh Medium Studies Committee



Wedi cyflwyno ein blaenoriaethau i Gyngor y Brifysgol. | Presented priorities to University Council.



Newidiadau wedi cael eu cymeradwyo er mwyn ei gwneud hi'n amlwg y gall myfyrwyr nyrsio rhoi cais i aros ym Mhantycelyn. | Changes have been approved to better signposting that make nursing students aware they can request to stay in Pantycelyn.

Sgyrsiau Myfyrwyr



Themâu

Modiwlau cyfrwng Cymraeg | Welsh medium modules

Pantycelyn

Llety myfyrwyr nyrsio | Nursing students housing

Sut i ddysgu Cymraeg | How to learn Welsh

Camau Nesaf

I Ddod

- Hyfforddiant cynrychiolwyr academiaidd - fory! Academic Rep Training - tomorrow!
- Ymgynghoriad grŵp gyda myfyrwyr Cymraeg am y ffordd gorau o hyrwyddo modiwlau Cymraeg. | Student consultation on the best way to advertise Welsh modules.
- Ymgyrch cael myfyrwyr i ddychwelyd i Bantycelyn | Returner students Pantycelyn campaign
- Dawns Ryng-gol